# Gwerthusiad Terfynol AEMRI

## Adroddiad Terfynol

TWI Ltd a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Adroddiad Drafft Mai 2023

# Gwerthusiad Allanol AEMRI: Adroddiad Terfynol

Awdur(on) / Miller Research (UK) Ltd.
Yasmin Pemberton, Tom Bajjada, Carly Wise a Merryn Tully

MILLER
Research Evaluation Consulting

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Yasmin Pemberton
yasmin@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK
www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

## Geirfa

| Byrfodd/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| AEM | Uwch Beirianneg a Gweithgynhyrchu |
| AEMRI | Sefydliad Ymchwil Peirianneg a Deunyddiau Uwch |
| AMRC | Canolfan Uwch Ymchwil Gweithgynhyrchu |
| ASME | Ymdeithas Perianwyr Mecanyddol America |
| ERDF | Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop |
| EU | Undeb Ewropeaidd |
| FTE | Gweithwyr Llawn Amser |
| GKN Aerospace | Guest, Keen and Nettlefolds Aerospace |
| HVMC | Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel |
| NCC | Canolfan Cyfansoddion Cenedlaethol |
| NDE | Archwilio Heb Fod yn Ddinistriol |
| NDT | Profi Heb Fod yn Ddinistriol |
| NAMRC | Y Ganolfan Uwch Ymchwil Weithygynhyrchu Niwclear |
| MTC | Y Ganolfan Dechnoleg Weithgynhyrchu |
| RTO | Sefydiadau Ymchwil a Thechnoleg |
| TRL | Lefel Parodrwydd Technoleg |
| TWI | Y Sefydliad Weldio |

## Crynodeb

i. Mae’r crynodeb hwn yn cyflwyno canfyddiadau cam terfynol gwerthusiad allanol y Sefydliad Ymchwil Peirianneg a Deunyddiau Uwch (AEMRI), Gweithrediad i ddatblygu cyfleuster archwilio a dilysu peirianyddol o’r radd flaenaf sydd wedi ei leoli yn TWI Cymru yn Port Talbot

ii. Cyflawnir y Gweithrediad gan TWI Cymru ac mae’n rhedeg o fis Ionawr 2016 hyd ddiwedd mis Mehefin 2023 (yn dilyn estyniad, a ganiatawyd yn Chwarter 4 2019). Mae cyfanswm ei werth yn £14.4 miliwn a chaiff ei gyllido’n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) trwy law Llywodraeth Cymru ar raddfa ymyrryd o 58 y cant.

iii. Cyflawnir y Gweithrediad o dan Echel Blaenoriaeth 1 ERDF: Ymchwil ac Arloesi, Amcan Penodol 1.1 o Raglen Weithredol ERDF Gorllewin Cymru a’r Cymoedd 2014-2020. Nod Amcan Penodol 1.1 yw cynyddu llwyddiant sefydliadau ymchwil Cymru wrth ddenu cyllid ymchwil preifat a chystadleuol.

iv. Roedd y dull gwerthuso’n cynnwys:

- Adolygiad o Ddata Monitro’r Gweithrediad.
- Gweithdy gyda thîm cyflawni AEMRI.
- Arolwg ar-lein o gydweithredwyr – datblygwyd arolwg ar-lein a’i ddosbarthu trwy e-bost gan dîm cyflawni AEMRI. Derbyniodd yr arolwg gyfanswm o 30 o ymatebion. Roedd 4 o’r ymatebion hyn gan fyfyrwyr, 21 o’r ymatebion gan weithwyr a 5 gan y brifysgol/goruchwylwyr. Penderfynwyd mai ffactor a allai fod wedi cyfrannu at y gyfradd isel o ymateb gan gydweithredwyr o’r brifysgol/goruwchwylwyr oedd eu pwysau gwaith. O ganlyniad i’r gyfradd ymateb isel, canolbwyntiodd y tîm gwerthuso ar casglu data ansoddol cyfoethog trwy gyfweliadau manwl gyda rhanddeiliaid y brifysgol.
- Cyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid – 13 o gyfweliadau ansoddol yn cynnwys swyddogion TWI, partneriaid cydweithredu o’r brifysgol a rhanddeiliaid diwydiant a oedd wedi cymryd rhan yn y Gweithrediad.
- Dadandoddi ac adrodd – gan gynnwys asesiad gwrthffeithiol.

**Cyd-destun y Gweithrediad (polisi, anghenion ac amcanion)**

v. Dangosodd yr adolygiad cyd-destunol a gyflawnwyd fel rhan o’r gwerthusiad terfynol hwn fod AEMRI yn dal yn gydnaws iawn â’r cyd-destun polisi sy’n ymwneud ag ymchwil ac arloesi, a Diwydiant 4.0 yng Nghymru.

vi. Mae datblygiadau allweddol, megis *Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru: Fframwaith Gweithredu*, yn dangos cydgyfeirio clir â’r Gweithrediad wrth helpu galluogi’r sector i addasu yn y dyfodol trwy ymwreiddio swyddogaethau allweddol, megis ymchwil a datblygu mewn cyfleusterau a gweithrediadau. Awgryma adborth gan randdeiliaid fod cyfle i AEMRI chwarae rhan allweddol mewn llunio polisïau strategol a chefnogi Llywodraeth Cymru wrth weithredu ei agendâu Arbenigo Clyfar a Diwydiant 4.0.

vii. Yn gysylltiedig â hyn, mae angen y farchnad am y Gweithrediad wedi aros yr un fath â phan gynlluniwyd AEMRI ac erys yn hynod berthnasol i anghenion y sector. Awgryma adborth gan randdeiliaid fod y Gweithrediad yn ymdrin â rhai o ofynion allweddol y diwydiant, gan gynnwys:

- Pontio bylchau mewn gwybodaeth a sgiliau
- Hyrwyddo ymchwil ac arloesi
- Hwyluso buddsoddiadau gwerthfawr mewn busnesau a galluogi cyfnewid yr arferion gorau ledled Cymru a’r Deyrnas Unedig
- Rhoi mynediad at wybodaeth ac arbenigedd i fusnesau yng Nghymru.

viii. Roedd rhanddeiliaid yn hyderus fod yr amcanion yn cydgyfeirio’n agos â’r anghenion a ganfuwyd a’r cyd-destun ehangach, ac felly roedd y sail resymegol gyffredinol dros AEMRI yn dal yn gryf. Roedd y tîm cyflawni yn unfrydol hdyerus fod AEMRI wedi gwireddu’r holl amcanion gwreiddiol ac wedi cyrraedd y mwyafrif o dargedau dangosyddion allbynnau neu wedi rhagori arnynt.

**Cynllunio, cyflawni a rheoli’r Gweithrediad**

ix. Awgryma adborth gan randdeiliaid a busnesau sy’n cydweithredu fod y Gweithrediad wedi defnyddio ei adnoddau mewn modd effeithlon, a bod y diolch i raddau helaeth am hynny i sgiliau a phrofiad ei dîm prosiect a strwythur sefydledig yn ei le. Mae prosesau cyflawni’r Gweithrediad wedi gweithio’n dda a dangoswyd graddau uchel o fodlonrwydd tuag atynt gan ei bartneriaid cyflawni a’i fuddiolwyr.

x. Mae'r Gweithrediad wedi wynebu heriau, yn enwedig o ran y pandemig Covid-19, lle cafodd nifer o gydweithrediadau â diwydiant eu hatal a'u gohirio. Er gwaethaf y problemau hyn, cytunai rhanddeiliaid eu bod wedi cael eu rheoli'n dda. Mae dull rhagweithiol y Gweithrediad i arallgyfeirio ac ehangu i ddiwydiannau newydd, megis y sectorau niwclear ac ynni adnewyddadwy, mewn ymateb i Brexit, yn dangos ei wydnwch wrth ymdrin â heriau a all ddod y dyfodol. Mae'r penderfyniad strategol hwn yn diogelu AEMRI trwy liniaru effeithiau posibl yn y dyfodol a sicrhau dyfodol cynaliadwy iddo.

xi. Mae'r Gweithrediad wedi integreiddio cyfraniadau at y Themâu Trawsbynciol yn llwyddiannus o fewn ei brosesau.

**Allbynnau – cynnydd terfynol**

xii. Ym mhob dangosydd ERDF ond un, mae'r Gweithrediad wedi cyrraedd targedau dangosyddion allbynnau neu wedi rhagori arnynt.

Crynodeb o Allbynnau AEMRI:

| **Dangosyddion Allbynnau ERDF** | **Cyflawniad cronnol Ch 1 2023** | **Targed cronnol Ch1 2023** | **Targed diwedd y prosiect** | **Cyflawnwyd ar ddiwedd y prosiect** | **Amrywiant** |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o gyfleusterau seilwaith ymchwil sydd wedi gwella | 1 | 1 | 1 | **1** | 0 |
| Nifer o ymchwilwyr sy'n gweithio mewn gwell cyfleusterau seilwaith ymchwil | 50.7 | 48 | 48 | **50.7** | + 2.7 |
| Swm o gyllid ymchwil a sicrhawyd | £9,628,353 | £11,504,996 | £12,600,000 | **£10,698,010** | - £ 1,901,990 |
| Nifer o bartneriaid sy'n cydweithio mewn prosiectau ymchwil | 84 | 50 | 50 | **84** | + 34 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o ymchwilwyr newydd mewn endidau a gefnogwyd | 27.2 | 24 | 24 | **27** | + 3.2 |



**Canlyniadau ac effeithiau**

xiii. Dengys tystiolaeth a gasglwyd gan randdeiliaid y Gweithrediad fod cydweithio ag AEMRI wedi arwain at fuddion aml-ddimensiwn i'w bartneriaid cydweithredol a'i fuddiolwyr.

xiv. Teimlai buddiolwyr a oedd cydweithio fod AEMRI wedi bod yn neilltuol o lwyddiannus wrth ysgogi datblygiadau newydd ac ymchwil mewn sawl maes,  wedi cyfrannu at gynyddu gweithgarwch economaidd o fewn ardal Port Talbot, gan wneud prosesau'n fwy dibynadwy, a hwyluso trosglwyddo mwy o wybodaeth.

xv. Dengys data a gasglwyd o'r arolwg ar-lein o fuddiolwyr fod ymwneud ag AEMRI wedi arwain at liaws o fuddion i fuddiolwyr, gan gynnwys: cynyddu capasiti a gallu ymchwil, cysylltiadau newydd rhwng diwydiant ac academia, mwy o gydweithio, ac ymchwil o'r radd flaenaf ac iddo ansawdd uchel ac effaith sylweddol.

xvi. Mae nifer o ganlyniadau ehangach sy'n ychwanegu gwerth hefyd wedi cael eu gwireddu, gan gynnwys mwy o gydweithio rhwng partneriaid prifysgol, datblygu amrywiaeth helaeth o gymhwysedd technegol o frewn rhanbarth de Cymru, a TWI Cymru yn recriwtio graddedigion o'r prifysgolion sy'n bartneriaid.

**Argymhellion**

*Argymhellion Gweithredol:*

- Ym mhob gweithgarwch yn y dyfodol, argymhelir bod AEMRI yn parhau i esblygu a llywodraethu yn unol â pholisi. Trwy wneud hynny, gall AEMRI gydgyfeirio ei wasanaethau'n effeithiol â gofynion esblygol y farchnad, gan sicrhau ymateb nerthol i anghenion ehangach diwydiant.

- Archwilio cyfleoedd i sefydlu a chryfhau partneriaethau strategol o fewn cyd-destun Diwydiant 4.0. Gall hyn gynnwys trafodaethau yn y dyfodol gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo'r gwaith eithriadol a gyflawnir gan y

Gweithrediad ac archwilio ffyrdd posibl o ddarparu cymorth ehangach yn unol ag agenda Diwydiant 4.0 Llywodraeth Cymru. Trwy weithio'n ddyfal i geisio'r partneriaid hyn, gall y Gweithrediad gryfhau ei effaith, cyfrannu at addasu'r sector ar gyfer y dyfodol, a chwarae rhan allweddol wrth hyrwyddo amcanion Fframwaith Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru.

- Gan adeiladu ar lwyddiannau'r Gweithrediad, argymhellir bod AEMRI yn parhau i ehangu i sectorau eraill, yn benodol y sectorau ynni adnewyddadwy a niwclear. Trwy barhau i arallgyfeirio ei bwyslais ac ymwneud mewn ymchwil a chydweithio o fewn y sectorau hyn, gall y Gweithrediad wella ei a allu i sicrhau mwy o gyllid ymchwil. Yn ogystal â chyfrannu ag gynaliadwyedd ariannol y Gweithrediad, bydd y symudiad strategol hwn yn hwyluso cynnydd ac arloesi pellach yn unol ag anghenion esblygol y diwydiant.